

Datganiad Polisi Rhaglenni 2008

1. Mae gennym ddyletswydd i ddarparu, ar deledu analog -

Ystod eang o raglenni o safon uchel ac amrywiol, gyda'r nifer helaeth o raglenni yn yr iaith Gymraeg. Yn ystod yr oriau brig (rhwng 18.30 a 22.00) rhaid i'r mwyafrif o'r rhaglenni fod yn Gymraeg. Rhaid i'r rhaglenni yn yr iaith Saesneg fel arfer fod yn rhaglenni sy'n cael eu darlledu ar Channel 4.

2. Mae gennym ddyletswydd i ddarparu ar deledu digidol -

Ystod eang o raglenni o safon uchel ac amrywiol yn bennaf yn y Gymraeg.

- 3 Yn 2008 bydd ein dyletswydd statudol i ddarparu'r gwasanaethau cyhoeddus yn cael ei weithredu yn unol â Strategaeth Rhaglenni S4C, gyhoeddwyd fis Gorffennaf 2004. Mae'r Strategaeth yn pwysleisio'r angen i gydweithio gyda'n partneriaid yn y sector annibynnol i sicrhau rhagoriaeth ar bob achlysur. Drwy'r bartneriaeth hon a'r bartneriaeth strategol newydd gyda'r BBC, byddwn yn sicrhau uchelfannau yn yr amserlen ynghyd â phatrwm mwy cynaliadwy weddill yr amser. Bydd ein cynlluniau cyfathrebu yn adlewyrchu blaenoriaethau'r Strategaeth Rhaglenni.
- 4 Rydym yn ymrwmo i ddarlledu o leiaf 35 awr o raglenni Cymraeg bob wythnos yn gydamserol ar wasanaethau teledu S4C ac S4C
- 5 Byddwn yn neilltuo o leiaf £70 miliwn ar gyfer cynnwys ein gwasanaethau.
- 6 Yn ogystal â'r dyletswyddau statudol i sicrhau bod dim llai na 25% o'r holl oriau darlledu gwreiddiol yn cael eu cynhyrchu gan gwmnïau annibynnol, rydym yn ymrwmo y bydd 95% o'r oriau a gomisiynir yn uniongyrchol gan S4C yn 2008 yn cael eu cynhyrchu gan gwmnïau annibynnol. Byddwn yn parhau i hyrwyddo rhagoriaeth greadigol a chystadleuaeth drwy ddefnyddio proses dendr agored.
- 7 Rydym yn ymrwmo i sicrhau bod ein perthynas â'n cynhyrchwyr yn agored ac effeithiol. Mae'r Cod Ymarfer i'w ddiweddarau er mwyn sicrhau bod egwyddorion y berthynas gyda'r cynhyrchwyr yn cael eu hadlewyrchu. Byddwn yn adolygu'r Telerau Masnach yn ystod y flwyddyn er mwyn sicrhau bod y telerau yn gyson â'r Cod Ymarfer.
- 8 Bydd Gwifren Gwylwyr S4C ar gael gydol y flwyddyn o leiaf o 09.00 tan 22.00 i dderbyn sylwadau ac ymholiadau gan ein gwylwyr ar 0870 6004141 neu gwifren@s4c.co.uk neu minicom 029 2074 1212.

Dyfeisgarwch

9. Byddwn yn defnyddio llwyfannau dosbarthu priodol er mwyn cynyddu gwerth a'r defnydd o gynnwys S4C.

Bydd mwyafrif y rhaglenni a ddarlledir ar S4C ar gael drwy fand llydan yn gydamserol gyda'r darllediad teledu, ac ar alw yn dilyn y darllediad teledu. Bydd amrywiaeth o wefannau dwyieithog i gyd-fynd â chynnwys ein rhaglenni, gan gynnwys gwybodaeth ychwanegol ar y rhaglenni, yr amserlenni a'r holl wasanaethau atodol. Byddwn yn gwneud y defnydd gorau posibl o'n cynnwys trwy gynnig cyfleoedd ychwanegol i ddefnyddio gwasanaethau botwm coch. Byddwn yn parhau i ddatblygu ein gwasanaethau i ddysgwyr ac yn rhoi pwyslais arbennig ar ddatblygu defnyddioldeb y safleoedd i'r anabl yn gyson ag ymarfer gorau.

10. Rydym yn adolygu'r drefn ddatblygu er mwyn parhau i ymateb i flaenoriaethau S4C a'r esblygu cyson ym myd darlledu.

11. Mae adolygiad yn digwydd o'n cadwyn gyflenwi cynnwys.

Uchelfannau

12. Bydd nifer o raglenni yn ymwneud â'r amgylchedd a'r hinsawdd yn creu uchelfannau yn ystod y flwyddyn fydd yn cyd-fynd â pholisi corfforaethol S4C i weithredu mewn modd carbon niwtral a charedig i'r amgylchedd.
13. Byddwn yn darlledu cyfres ddiffiniol **Natur Cymru** ar fywyd gwyllt yng Nghymru wedi ei chyflwyno gan Iolo Williams. Bydd y rhaglenni yn clodfori ein tirlun a'n byd natur gan eu dangos o ogwydd nas gwelwyd o'r blaen yng nghyd-destun Cymru. Bydd y rhaglenni yn ein tywys ar daith o olygfeydd a chynefinoedd mwyaf trawiadol Cymru trwy'r gwahanol dymhorau. Mae'n edrych ar bob math o fywyd gwyllt gan gynnwys rhywogaethau cyfarwydd ac anghyffredin. Bydd gwefan gynhwysfawr a rhaglen sy'n dilyn y gwaith creu a ffilmio yn cryfhau ac ehangu'r ddarpariaeth.
14. Ym maes rhaglenni ffeithiol bydd **Yr Afon** yn dilyn taith afonydd enwocaf y byd o'r Mississippi i'r Nîl, o'r Rhine i'r Amazon. Hyn yng nghwmni cyflwynwyr fydd yn rhoi eu stamp eu hunain ar hanes hen a newydd yr ardaloedd poblog ac anghysbell y llifa'r afonydd trwyddynt gan dynnu sylw at effaith yr hinsawdd ac economïau'r gwledydd a pherthynas dyn gyda'r dyfroedd hyn.
15. Bydd rhaglenni eraill fel **Popeth yn Wyrdd** a chyfres arddio newydd sbon **Byw yn yr Ardd** yn edrych ar ffyrdd gwyrdd ac organig o fyw. Ac yn **Cwm Glo Cwm Gwyrdd** bydd pobl ifanc o gymoedd y de yn ystyried pa mor 'wyrdd' yw eu cymunedau.
16. Fel rhan o'n hymrwymiad i gerddoriaeth a'n partneriaeth gyda Chwmni Opera Cenedlaethol Cymru, byddwn yn dangos Opera **Falstaff** gan Verdi. Bryn Terfel sydd yn y brif ran gyda Carlo Rizzi yn arwain.
17. Ym maes ffuglen bydd trydedd gyfres o ddrama Siwan Jones **Con Passionate**. Mae'r gyfres sy'n dilyn hynt a helynt côr o ddynion a'i harweinyddes eisoes wedi ennill nifer o wobrau gan gynnwys y Rose D'Or. Byddwn hefyd yn darlledu addasiad ffilm deledu o nofel boblogaidd Caryl Lewis **Martha, Jac a Sianco**.
18. Fel deiliaid hawliau teledu daearol ar gyfer pêl-droed ryngwladol a domestig Cymru tan 2012 gan ddechrau yn nhymor 2008/2009, byddwn yn darlledu uchafbwyntiau ecsgliwsif o gemau cartref Cymru, gan gynnwys Rowndiau Rhagbrofol ar gyfer Cwpan y Byd 2010 a Phencampwriaeth Ewrop 2012. Byddwn hefyd yn dangos gemau byw a pheccynnau uchafbwyntiau ar gyfer Uwch Gynghrair Cymru'r Principality a Chwpan Cymru ac yn datblygu ein holl arlwy pêl-droed.

Plant

19. Yn ddibynnol ar union ganlyniadau Ymgynghoriad Awdurdod S4C i sefydlu Sianel i Blant, byddwn yn parhau i ddatblygu a buddsoddi yn ein holl wasanaethau ar gyfer plant a phobol ifanc.
20. Yn dilyn allanoli ein gwasanaeth dolenni **Planed Plant a Planed Plant Bach** byddwn yn parhau i ddatblygu'r ddarpariaeth hon gan roi sylw arbennig i'r gwefannau newydd sydd wedi eu creu.
21. Rydym yn ymrwymo i ddarlledu lleiafswm o 140 awr o raglenni gwreiddiol i blant ac i gynnal ein darpariaeth yn ystod gwyliau ysgol.
22. Byddwn yn parhau i ehangu ein darpariaeth i blant wrth ganolbwyntio'n benodol yn 2008 ar y gynulleidfa rhwng 10 a 15 oed. Ymhlith y cyfresi newydd ar eu cyfer yn 2008 mae **Concro'r Cwm** sy'n cynnig her gorfforol a meddyliol i wahanol dimoedd fydd yn cystadlu yn erbyn ei gilydd. Bydd rhaglen gylchgrawn newydd BBC Cymru **Mosquito** hefyd yn cael ei hymestyn a bydd rhaglen newyddion **Ffeil** ar y sgrin trwy'r flwyddyn. I blant iau, bydd cyfres her hanes newydd **Cracio'r Cod** a chystadleuaeth arbennig i farchogion **Iii Haa**. Byddwn yn buddsoddi ymhellach yn yr arlwy ar gyfer plant yn eu harddegau trwy raglenni fel **Uned 5, Pencampau** a chyfres chwaraeon eithafol.

23. Ar gyfer plant meithrin fe fydd ail gyfres o **Holi Hana**. Mae'r gyfres yn gynhyrchiad ar y cyd rhwng S4C, y cwmni cynhyrchu Calon, Five a ZDF o'r Almaen. Bydd cyfres newydd o **Cegin Twts** yn ogystal â chyfres i gynorthwyo darllen a deall **ABC**. Bydd cyfres newydd hwyliog **Heini** yn helpu plant bach i gadw'n heini a dawnsio.


Newyddion a Materion Cyfoes

24. Yn sgîl ein Partneriaeth Strategol gyda'r BBC byddwn yn parhau i gydweithio i ddatblygu rhaglen **Newyddion** yn rhyngweithiol. Bydd y brif raglen nosweithiol a bwletin byr yn parhau i gael eu darlledu yn ystod yr oriau brig gyda bwletinâu hirach ar y penwythnos gan gwrdd â thargedau Ofcom ar gyfer newyddion (200 awr dros yr oriau Cymraeg gyda 150 awr ystod yr oriau brig).
25. Rydym hefyd yn ymrwmo i ddarlledu 30 awr o raglenni materion cyfoes yn yr oriau brig (60 awr dros yr holl oriau) ac er mwyn hybu plwraliaeth byddwn yn sicrhau darpariaeth gan fwy nag un ffynhonnell gynhyrchu. Yn 2008 bydd y BBC yn darparu cyfresi **Pawb a'i Farn, CF99** a **Taro Naw** ac ITV Cymru yn cynhyrchu'r **Byd ar Bedwar** a **Hacio**. Fe fyddwn yn trafod y ddarpariaeth o'r sesiynau yn y Cynulliad ar S4C2 gyda'n partneriaid er mwyn penderfynu ar y ffordd orau o adlewyrchu a dadansoddi yr hyn sy'n digwydd yn Y Senedd ar gyfer ein cynulleidfa.

Ystod o Raglenni

26. Mae darllediadau byw o'r gwyliau cenedlaethol a chwaraeon yn rhoi blas unigryw i wasanaeth S4C ac fe'u hystyrir yn ffordd bwysig o ddenu cynulleidfa eang i'r Sianel. Byddwn yn parhau â'n gwasanaethau estynedig o'r Sioe Amaethyddol Frenhinol, Yr Eisteddfod Genedlaethol ac Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, gyda chynnwys atodol ar gael trwy'r botwm coch ac S4C2 yn ogystal ag ar y we. Byddwn hefyd yn parhau i gryfhau'r arlwy ar y teledu ac ar y we o'r 1 Gerdd Dant ac Eisteddfod Gerddorol Gydwladol Llangollen.
27. Fel deiliaid teledu daearol ar gyfer pêl-droed ryngwladol a domestig Cymru tan 2012 byddwn yn adeiladu ar ein harlwy bêl-droed, gan barhau i ddatblygu rhaglen **Sgorio** a gafodd eil hail-gyfeirio yn olygyddol ddiwedd 2007. Byddwn hefyd yn parhau i gynnal ein henw da ym maes rygbi trwy ddarlledu gemau rhyngwladol a gemau o gynghreiriau Cymru gan ddatblygu'r ochr rhyngweithiol trwy ein Partneriaeth Strategol gyda'r BBC. Byddwn yn darlledu cymalau **Pencampwriaeth Ralio Prydain a'r Byd** a rhaglen **Rasus**. Mae'n fwriad hefyd datblygu rhaglenni yn ymwneud â golff a sicrhau ein bod yn rhoi sylw i'r cystadleuwyr o Gymru yn y gemau Olympaidd yn Beijing.
28. Yn unol â'r Strategaeth Rhaglenni byddwn yn cynyddu'r pwyslais ar ddiddanwch trwy gyflwyno cyfresi newydd a datblygu cyfresi poblogaidd ym maes Adloniant. Byddwn yn cyflwyno rhifynnau arbennig o **Noson Lawen** o leoliadau cyffrous a chychwyn rhaglen newydd o gerddoriaeth ysgafn ar nos Sadwrn **Noson Chis a Meinir** yn ogystal. Bydd Sioe Gwis Deithio newydd hefyd sy'n ffrwyth yr arian datblygu yn cyrraedd y sgrin.
29. Yn y maes hwn hefyd bydd un o sêr cyfres **Mawr**, y plismon **PC Leslie Wynne** yn cael Sioe arbennig ei hun yn ogystal â chomedi sefyllfa newydd sbon wedi ei lleoli yn y gogledd.
30. O ran yr arlwy wledig, byddwn yn parhau i ddarlledu cyfresi **Cefn Gwlad** a **Ffermio** a bwletinâu newyddion arbennig, yn ogystal â gwasanaethau rhyngweithiol ac ar y we.
31. Byddwn yn cychwyn cyfresi newydd yn cyfuno garddio a ffyrdd cynaliadwy ac organig o dyfu cynnyrch. Bydd Dudley Newbury yn teithio i wlad arall yn Ewrop er mwyn canfod cogyddion gorau Cymru yn nhrydedd gyfres **Casa Dudley** ac Aled Samuel a Nia Parry yn parhau i grwydro i edrych ar dai a chypyrddau dillad diddorol, a bydd cyfres arall o **Mastermind Cymru**.
32. Ym maes drama yn 2008 byddwn yn dangos cyfres o ddramâu amrywiol unigol. Bydd llais yr awdur i'w glywed yn gryf yn y rhain. Bydd cyfres newydd sbon **Teulu** sydd wedi ei lleoli yn Aberaeron yn cyrraedd y sgrin yn gynnar yn y Gwanwyn. Fe fydd cyfres newydd ar gyfer pobol ifanc wedi ei lleoli ym Mhontypridd. Mae **2 Dy a Ni** yn dilyn hanes teulu maeth estynedig a'r gymuned lle maen nhw'n byw. Mae gwefan arbennig yn cyd-fynd â'r gyfres. Byddwn hefyd yn ail-lansio gwefan **Rownd a Rownd** wrth i'r gyfres boblogaidd yma ddychwelyd. Bydd cyfresi newydd o'r **Pris, Caerdydd** a **Tipyn**

o Stad hefyd yn dychwelyd. Drama nosweithiol y BBC, **Pobol y Cwm**, fydd asgwrn cefn yr amserlen o ddydd Llun i ddydd Gwener.

33. Yn unol â'r Strategaeth Rhaglenni byddwn yn parhau i nodi pwysigrwydd cerddoriaeth yn yr amserlen gan gynnwys perfformiadau gan Opera Cenedlaethol Cymru, y tenor Rhys Meirion a darllediadau o  1 Jazz Aberhonddu. Bydd cyfres arall o gystadleuaeth **Codi Canu**. Byddwn yn parhau i fuddsoddi a datblygu ein cyfres gerddoriaeth gyfoes **Bandit** a chyflwyno rhaglen newydd gerddorol. Bydd cystadleuaeth flynyddol **Cân i Gymru** yn cael ei chynnal ym mis Mawrth unwaith yn rhagor.
34. Byddwn yn parhau i ddatblygu **Dechrau Canu Dechrau Canmol** ar ei newydd wedd gan sicrhau amrywiaeth o raglenni sy'n cynnwys canu cynulleidfaol, perfformiadau o safon aruchel a chyd-ganu o ddigwyddiadau amlwg yng Nghymru.
35. Byddwn yn datblygu'r gwasanaeth **Tywydd** sydd bellach wedi ei allanoli ac o dan ofal ITV Cymru. Byddwn yn cynnig gwasanaeth arbennig ar ffonau symudol ac ar y we. Byddwn yn buddsoddi ymhellach yn **Wedi 7** wrth i'r rhaglen gael ei darlledu yn nosweithiol o'r hydref ymlaen. A bydd **Wedi 3** hefyd yn parhau i ddarparu straeon o bob rhan o Gymru yn ogystal â sgysiau a gwesteion difyr o'r stiwdio yn Llanelli. Yn unol â'r pwyslais a roddir ar raglenni'r celfyddydau yn y Strategaeth Rhaglenni, byddwn yn darlledu'r gyfres **Sioe Gelf** yn yr oriau brig, ynghyd â rhaglenni arbennig arall celfyddydol gan yr un cwmni cynhyrchu. Ac i nodi naw deg mlynedd ers diwedd y Rhyfel Byd Cyntaf bydd cyfres arbennig yn edrych yn ôl ar y cyfnod hwnnw - **Lleisiau'r Rhyfel Mawr**.
36. Byddwn yn darlledu o leiaf 90% o raglenni gwreiddiol yn ystod yr oriau brig ac 80% dros yr holl oriau Cymraeg ar S4C.
37. Cynlluniwyd ein gwasanaeth isdeitlo Cymraeg i fod yn ddefnyddiol, hwylus ac yn addas ar gyfer y byddar a'r trwm eu clyw Cymraeg eu hiaith, dysgwyr Cymraeg, a'r rhai sy'n ystyried eu Cymraeg yn ansicr.
38. Byddwn yn darparu o leiaf 10 awr yr wythnos (ar gyfartaledd) o isdeitlau Cymraeg gwreiddiol, y rhan fwyaf ar raglenni i'w gweld yn ystod oriau brig ar y gwasanaeth analog (a'r rhaglenni cydamserol ar ddigidol).
39. Byddwn yn parhau i ehangu apêl ein rhaglenni drwy ddefnyddio isdeitlau Saesneg. Byddwn yn anelu at gynnig 10 awr yr wythnos o isdeitlau Cymraeg ar 889 dros yr holl oriau Cymraeg. Rydym yn anelu at gynnwys isdeitlau Saesneg ar o leiaf 80% o'r holl oriau Cymraeg ar analog. Byddwn yn cwrdd â thargedau Ofcom ar gyfer isdeitlau ar S4C ac S4C2.
40. Byddwn yn parhau i ddarlledu nifer o ail ddarllediadau ein rhaglenni mwyaf poblogaidd gydag isdeitlau agored (gan gynnwys ailddarllediadau **Pobol y Cwm**). Trefnir bod isdeitlau ar gyfer y byddar a'r trwm eu clyw a ddarperir gan Channel 4 ar gael pan ddarlledir neu ail-ddarlledir y rhaglenni yma ar S4C.
41. Ar rai rhaglenni ar S4C Digidol bydd gwasanaeth llun-ddisgrifio yn rhoi disgrifiadau ychwanegol yn y Gymraeg, gan gynnwys sylwebaeth lafar i lenwi'r cyfnodau heb ddeialog, i alluogi gwylwyr sydd â phroblemau gweld i fwynhau'r rhaglen yn annibynnol. Bydd y sylwebaeth yn cynnwys disgrifiadau o ddilyniant mewn plot, mynegiant gweledol, iaith y corff, gwisg a golygfeydd (yn unol â thargedau Ofcom).
42. Byddwn yn darparu arwyddo ar rai rhaglenni ar S4C digidol ar ochr y sgrin er mwyn dehongli'r rhaglen mewn iaith BSL. Paratoir y gwasanaeth ar gyfer gwylwyr byddar, ac fe fydd y cyflwynydd yn cyfleu'r rhaglen mewn steil sy'n addas ar gyfer cynulleidfa sydd ar y cyfan yn byw yng Nghymru, neu sy'n medru derbyn S4C ar lwyfan Sky yn y Deyrnas Gyfunol.
43. Rydym yn trafod gyda grwpiau perthnasol i sicrhau defnyddioldeb ac addasrwydd ein holl wasanaethau mynediad.

44. Ar analog byddwn yn ail-ddarlledu y rhan fwyaf o'n dramâu o fewn 7 niwrnod gydag isdeitlau agored, gan roi cyfle i'n gwylwyr i weld ein rhaglenni eto ar ddigidol o fewn yr wythnos ac er mwyn sicrhau y gwerth gorau byddwn hefyd yn cynnig cyfle arall i wylwyr rhai rhaglenni oriau brig mewn meysydd eraill. Mewn wythnos arferol ni fydd mwy na 15% o'r rhaglenni ar analog yn yr oriau brig yn ailddarllodiadau.
45. Byddwn yn parhau i gynnal ymchwil ansoddol a meintiol i asesu barn ac yn ystyried y canlyniadau a goblygiadau wrth gynllunio ein gwasanaethau ac yn yr adolygiad blynyddol o'r Strategaeth Rhaglenni.
46. Byddwn yn darparu gwybodaeth am ein gwasanaethau ac yn derbyn sylwadau neu gwynion gan ein gwylwyr ar ein Gwefan Gwylwyr ac mewn cyfarfodydd cyhoeddus. Byddwn yn cyfleu gwasanaeth Sbectel.
47. Byddwn yn cynhyrchu cylchgrawn chwarterol Sgrîn sy'n darparu gwybodaeth am ein rhaglenni.

Apêl S4C

48. Unwaith eto bydd Apêl S4C yn cyd fynd â blaenoriaethau'r Strategaeth Rhaglenni, ac yn codi ymwybyddiaeth am ymgyrchoedd 'gwyrdd' yn unol â'r tymor o raglenni. Byddwn yn creu partneriaethau fydd yn cynorthwyo pobl ar draws Cymru i godi ymwybyddiaeth am y gweithgareddau gwyrdd yn eu cymunedau eu hunain, ac yn cynnig cefnogaeth drwy'n rhaglenni a'n personoliaethau ar y sgrîn.

Hyfforddiant

49. Bydd S4C yn parhau i gyd weithio er mwyn sicrhau trefniadau addas a chyfrannu at godi lefel sgiliau yn fewnol ac yn y sector gynhyrchu. Byddwn yn cyfrannu at waith Skillset, ac yn chwarae ein rhan wrth i'r fframwaith newydd ddod yn weithredol. Byddwn yn parhau i fuddsoddi mewn hyfforddiant i'r diwydiant yng Nghymru.
50. Bydd S4C yn parhau i gynnig cymorth ar ffurf bwrsari neu ysgoloriaethau yn gyson â'n blaenoriaethau strategol. Yn ystod 2008 byddwn yn cynnig ysgoloriaeth a dosbarth feistr i ddau olffiwr ifanc, yn partneru gyda Chymdeithas Athletwyr Cymru i ddatblygu athletwyr ifanc, yn cynnig ysgoloriaeth i fyfyrwr yng Ngholeg Newyddiadurol Caerdydd, cyfrannu at ysgoloriaeth Syr Geraint Evans a chynllun datblygu ym maes cerddoriaeth.
51. Byddwn yn parhau â'n polisi o gyfleodd cyfartal ac yn sicrhau bod lleiafrifoedd ethnig a'r anabl yn cael eu hadlewyrchu ar y sgrîn.
52. Byddwn yn sicrhau bod S4C yn cael ei darlledu ar analog yng Nghymru a bod S4C Digidol ar gael ar gebl, DTT a lloeren yng Nghymru ac ar loeren yn y Deyrnas Gyfunol.